**Gareth Owens LL.B Barrister/Bargyfreithiwr**
Chief Officer (Governance)
Prif Swyddog (Llywodraethu)

CYNGOR Sir y Fflint
Flintshire COUNTY COUNCIL

Swyddog Cyswllt:
Maureen Potter 01352 702322
maureen.potter@flintshire.gov.uk

At: Cyng David Evans (Cadeirydd)

Aelodau o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd a'r Economi

Dydd Llun, 30 Mai 2022

Annwyl Gynghorydd,

**RHYBUDD O GYFARFOD ANGHYSBELL**
**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU'R AMGYLCHEDD A'R ECONOMI**
**DYDD MAWRTH, 7FED MEHEFIN, 2022 10.00 AM**

Yn gywir



Steven Goodrum
Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd

Bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw ar wefan y Cyngor. Bydd recordiad o'r cyfarfod ar gael yn fuan ar ôl y cyfarfod ar https://flintshire.publici.tv/core/portal/home

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch ag aelod o'r Tîm Gwasanaethau Democrataidd ar 01352 702345.

# R H A G L E N

## 1 **PENODI CADEIRYDD**

**Pwrpas** Nodi bod y Cyngor, yn y Cyfarfod Blynyddol, wedi penderfynu y dylid penodi'r Cynghorydd David Evans yn Gadeirydd y Pwyllgor.

## 2 **PENODI IS-GADEIRYDD**

**Pwrpas** Penodi Is-Gadeirydd ar gyfer y Pwyllgor

## 3 **YMDDIHEURIADAU**

**Pwrpas:** I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau.

## 4 **DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)**

**Pwrpas:** I dderbyn unrhyw ddatganiad o gysylltiad a chynghori'r Aelodau yn unol a hynny.

## 5 **COFNODION** (Tudalennau 5 - 20)

**Pwrpas:** I gadarnhau, fel cofnod cywir gofnodion y cyfarfod ar 8 Chwefror 2022.

**Fe'ch hysbysir y bydd gweithdy sefydlu ar gyfer aelodau'r pwyllgor yn syth ar ôl i'r cyfarfod ffurfiol orffen, yn rhoi cefndir i waith y pwyllgor Trosolwg a Chraffu a chylch gorchwyl y pwyllgor hwn.**

**Nodyn Gweithdrefnol ar redeg cyfarfodydd**

Bydd y Cadeirydd yn agor y cyfarfodydd ac yn cyflwyno eu hunain.

Bydd nifer o Gynghorwyr yn mynychu cyfarfodydd. Bydd swyddogion hefyd yn mynychu cyfarfodydd i gyflwyno adroddiadau, gyda swyddogion Gwasanaethau Democrataidd yn trefnu a chynnal y cyfarfodydd.

Gofynnir i bawb sy'n mynychu i sicrhau bod eu ffonau symudol wedi diffodd a bod unrhyw sain gefndirol yn cael ei gadw mor dawel â phosib.

Dylai'r holl feicroffonau gael eu rhoi "ar miwt" yn ystod y cyfarfod a dim ond pan fyddwch yn cael eich gwahodd i siarad gan y Cadeirydd y dylid eu rhoi ymlaen. Pan fydd gwahoddedigion wedi gorffen siarad dylen nhw roi eu hunain yn ôl "ar miwt".

Er mwyn mynegi eu bod nhw eisiau siarad bydd Cynghorwyr yn defnyddio'r cyfleuster 'chat' neu yn defnyddio'r swyddogaeth 'raise hand' sy'n dangos eicon codi llaw electronig. Mae'r swyddogaeth 'chat' hefyd yn gallu cael ei ddefnyddio i ofyn cwestiynau, i wneud sylwadau perthnasol ac yn gyfle i'r swyddog gynghori neu ddiweddaru'r cynghorwyr.

Bydd y Cadeirydd yn galw ar y siaradwyr, gan gyfeirio at aelod etholedig fel 'Cynghorydd' a swyddogion yn ôl eu teitl swydd h.y. Prif Weithredwr neu enw. O bryd i'w gilydd mae'r swyddog sy'n cynghori'r Cadeirydd yn egluro pwyntiau gweithdrefnol neu'n awgrymu geiriad arall ar gyfer cynigion er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor.

Os, a phan y cynhelir pleidlais, mi fydd y Cadeirydd yn egluro mai dim ond y rheiny sy'n gwrthwynebu'r cynnig/cynigion, neu sy'n dymuno ymatal a fydd angen mynegi hynny drwy ddefnyddio'r swyddogaeth 'chat'. Bydd y swyddog sy'n cynghori'r Cadeirydd yn mynegi os bydd y cynigion yn cael eu derbyn.

Os oes angen pleidlais fwy ffurfiol, bydd hynny yn ôl galwad enwau – lle gofynnir i bob Cynghorydd yn ei dro (yn nhrefn yr wyddor) sut mae ef / hi yn dymuno pleidleisio.

Yng nghyfarfodydd Pwyllgorau Cynllunio a Chyngor Sir mae amseroedd siaradwyr yn gyfyngedig. Bydd cloch yn cael ei chanu i roi gwybod i'r siaradwyr bod ganddyn nhw funud ar ôl.

Bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw ar wefan y Cyngor. Bydd recordiad o'r cyfarfod ar gael yn fuan ar ôl y cyfarfod ar https://flintshire.publici.tv/core/portal/home